# DEALL **PROFI OFFER SYMUDOL** AR GYFER LANDLORDIAID

Mae Profi Offer Symudol (PAT) yn gwerthuso offer a chyfarpar trydanol i gadarnhau eu bod yn ddiogel. Mae modd canfod y mwyafrif o ddiffygion diogelwch trydanol drwy archwiliad gweledol. Serch hynny, drwy brofi yn unig y mae modd canfod rhai diffygion. Mae'n werth nodi bod archwiliad gweledol yn rhan hanfodol o'r broses, gan na ellir canfod mathau penodol o ddiffygion diogelwch trydanol drwy brofi'n unig.

## A YW'N ORFODOL YN ÔL Y GYFRAITH I BROFI FY OFFER TRYDANOL SYMUDOL BOB BLWYDDYN?

***Mae'r Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989 yn nodi y dylid cadw unrhyw gyfarpar trydanol sydd â'r potensial i achosi anaf mewn cyflwr diogel.***
**Serch hynny, nid yw'r rheoliadau'n manylu ar natur y gwaith cadw, pwy ddylai ei wneud, na pha mor aml.** ***Nid ydynt yn ei wneud yn ofyniad cyfreithiol i archwilio na phrofi offer trydanol na'i wneud yn orfodol i ymgymryd â hynny bob blwyddyn.***

## PA MOR AML DDYLWN I BROFI FY OFFER TRYDANOL?

***Mae amlder yr archwiliadau a phrofion yn dibynnu i rannau helaeth ar y math o gyfarpar a'r amgylchedd a ddefnyddir.***
***Mae'r HSE yn argymell y canlynol:***

| | **ARCHWILIAD GWELEDOL** | **PRAWF** |
|---|---|---|
| Cyfarpar wedi'u dwbl-inswleiddio (Dosbarth II) a gaiff eu symud o dro i dro (nid cyfarpar llaw), e.e. ffaniau, lampiau bwrdd | Bob 2-4 blynedd | *Ddim yn ofynnol* |
| Cyfarpar llaw wedi'u dwbl-inswleiddio (Dosbarth II), e.e. rhai teclynnau glanhau lloriau a rhai cyfarpar cegin | *Bob chwe mis-1 flwyddyn* | *Ddim yn ofynnol* |
| Cyfarpar gwifren daear (Dosbarth I), e.e. tegelli trydan, rhai teclynnau glanhau lloriau | *Bob chwe mis-1 flwyddyn* | *Bob 1-2 flynedd* |
| Cyfarpar Dosbarth I sydd wedi'u cysylltu i geblau, gwifrau a phlygiau, gwifrau ymestyn a chyfarpar gwefru batris | *Bob 1-4 blynedd (yn dibynnu ar y math o gyfarpar maent wedi'u cysylltu iddynt)* | *Bob 1-5 blynedd (yn dibynnu ar y math o gyfarpar maent wedi'u cysylltu iddynt)* |

***Ar gyfer tabl manylach o amlder awgrymedig yr archwiliadau a phrofion – cyfeiriwch at y Canllaw HSE.***

Rhaid cynnal archwiliadau gweledol ar ddechrau cyfnod tenantiaeth newydd.

## A DDYLWN GADW COFNOD O BOB PRAWF A LABELU UNRHYW OFFER SYDD WEDI'U PROFI?

*Er nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i labelu cyfarpar sydd wedi'u harchwilio neu eu profi, na chadw cofnod o weithgarwch o'r fath, gall dogfennau neu labeli fod yn ddulliau rheoli defnyddiol.*

## A OES ANGEN I OFFER NEWYDD GAEL EU PROFI?

*Dylai cyfarpar newydd gael ei gyflenwi'n ddiogel, fel nad oes angen archwilio neu brofi offer symudol yn ffurfiol. Serch hynny, argymhellir y dylid cynnal gwiriad gweledol syml er mwyn sicrhau nad yw'r eitem wedi'i ddifrodi.*

***OS OES ANGEN UNRHYW WYBODAETH BELLACH ARNOCH YNGHYLCH Y PWNC HWN, MAE CROESO I CHI GYSYLLTU Â NI***

***info@eiddo-cyf.cymru***
***01407 761403***

## A DDYLAI TRYDANWR GYNNAL Y PRAWF OFFER SYMUDOL?

***Mae angen i'r unigolyn sy'n cynnal y prawf fod yn gymwys i wneud hynny. Mewn sawl amgylchedd risg isel, gall landlord neu staff cymwys gynnal archwiliadau gweledol os oes ganddynt wybodaeth a hyfforddiant digonol. Serch hynny, bydd angen i'r unigolyn sy'n cynnal archwiliad a phrawf cyfunol sicrhau bod ganddo'r cyfarpar priodol i gynnal y profion, y gallu i ddefnyddio'r cyfarpar hwn yn gywir, a'r gallu i ddadansoddi canlyniadau'r prawf yn iawn.***

## A YW PROFI OFFER SYMUDOL (PAT) YN ORFODOL?

***Nac ydy. Dim ond gofyn mae'r gyfraith i landlordiaid sicrhau bod eu cyfarpar trydanol yn cael eu cynnal a chadw er mwyn atal perygl. Nid yw'n manylu sut dylid gwneud hyn na pha mor aml. Dylai landlordiaid ac asiantau fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg, gan ystyried y math o gyfarpar a'i ddefnydd bwriadedig.***

***Os caiff y cyfarpar ei ddefnyddio'n rheolaidd a'i symud yn aml, megis tegell, gall cynnal prawf ochr yn ochr â chynnal gwiriadau gweledol ffurfio rhan hanfodol o drefniant cynnal a chadw effeithiol. Mae hyn yn rhoi'r hyder i landlordiaid eu bod yn gwneud yr hyn sy'n angenrheidiol i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol.***

eiddo